**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Llun, 20fed Mawrth, 2017 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor J. Higginson (Chairman)
County Councillor P. Jordan (Vice Chairman)

County Councillors: J. Prosser, D. Blakebrough, M. Powell, V. Smith, G. Burrows, P. Clarke, J. Crook, D. Dovey, G. Down, A. Easson, D. Edwards, R. Edwards, P. Farley, P.A. Fox, R.J.W. Greenland, L. Guppy, E. Hacket Pain, R. Harris, B. Hayward, P.A.D. Hobson, S. Howarth, D. Jones, P. Jones, S. Jones, S.B. Jones, P. Murphy, B. Strong, F. Taylor, A. Webb, S. White, K. Williams and A. Wintle

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Paul Matthews | Chief Executive |
| Peter Davies | Chief Officer, Resources |
| Tracey Harry | Head of People and Information Governance |
| Roger Hoggins | Head of Operations |
| Will Mclean | Chief Officer for Children and Young People |
| Joy Robson | Head of Finance/Section 151 Officer |
| Robert Tranter | Head of Legal Services & Monitoring Officer |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |
| Claire Marchant | Chief Officer Social Care, Health & Housing |
| Sally Thomas | Interim HR Manager |

**APOLOGIES:**

Councillors D. Batrouni, R. Chapman, D. Evans, J. George, M. Hickman, G. Howard, J. Marshall, A. Watts and P. Watts

1. **Penodi Prif Swyddog, Plant a Phobl Ifanc**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod ac esboniodd mai diben yr eitem gyntaf ar yr agenda fyddai penodi Prif Swyddog dros Blant a Phobl Ifanc.

Yn dilyn y broses gais, dywedodd y Prif Weithredwr fod dau ymgeisydd wedi mynychu diwrnod asesu trylwyr. Cafodd y Cyngor adborth o'r asesiad a dywedwyd wrthynt bod un ymgeisydd, Mr. W. McLean, wedi rhagori ar y meincnod ac iddo gael ei wahodd i roi cyflwyniad 10 munud i'r Cyngor.

Hysbyswyd aelodau mai'r opsiynau yn dilyn y broses gyfweld fyddai:
I. Gwneud cynnig o benodiad;
II. Penderfynu na ddylid gwneud cynnig o benodiad.

Yn dilyn trafodaeth croesawyd Mr. McLean a roddodd gyflwyniad a chafodd ei gyfweld gan y Cyngor. Yna gofynnwyd i'r ymgeisydd adael y siambr er mwyn i Aelodau gymryd penderfyniad. Mewn pleidlais cytunodd Aelodau yn unfrydol gydag argymhelliad y dylid penodi Mr. McLean.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Llun, 20fed Mawrth, 2017 at 2.00 pm**

Dychwelodd Mr. McLean i'r cyfarfod, derbyniodd y penodiad, a chafodd ei longyfarch gan Aelodau.

## 3. Adroddiad y Cadeirydd ac unrhyw ddeisebau sydd wedi eu derbyn

Derbyniodd y Cyngor adroddiad y Cadeirydd.

Cyflwynodd y Cynghorydd Sir S.B. Jones ddeiseb ar ran preswylwyr Felinfach gan fynnu fod gweithredu ar frys ar gerbydau sy'n goryrru drwy'r pentref, lle canfuwyd fod 99.1% o gerbydau yn goryrru.

Cyflwynodd y Cynghorydd Sir S. Howarth ddeiseb yn ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus yng Ngheunant Clydach, Gilwern a Llanelli Hill. Bu anghydfod ers 22 mlynedd am hawl tramwy 118 a gofynnwyd am gau fel mater o frys.

Cyflwynodd y Cynghorydd Sir V. Smith ddeiseb yn ymwneud â chyflymder a'r traffig cynyddol ar yr A472 Woodside i Felinfach. Fel arwydd o bryder preswylwyr, esboniodd y Cynghorydd Sir ei bod wedi ceisio ymgynghori gyda phob preswylydd ar hyd y llwybr hwnnw, a dim ond un unigolyn oedd yn pryderu mwy am fand eang na diogelwch ffordd.

Dywedodd y Cynghorydd Sir P. Fox y derbyniwyd deiseb gan breswylwyr Pwllmeurig parthed goryrru ar yr A48, gan ofyn i'r Cyngor ystyried gostwng cyflymder maes o law.

## 4. Datganiadau o Fuddiant

Gwnaeth y Cynghorydd Sir F. Taylor ddatganiad o fuddiant personol heb fod yn rhagfarnu yn dilyn Cod Ymddygiad Aelodau, yng nghyswllt eitemau 9d a 93 fel aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir S. Howard ddatganiad o fuddiant personol nad oedd yn rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau, yng nghyswllt eitem 9b, fel aelod o wasanaethau canolfan hamdden yn y Fenni.

## 5. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

None.

## 6. Rhestr o Gynigion

None.

## 7. Aroddiad Aelod Cabinet, y Cynghorydd G. Burrows

### 7.1. Datganiad Safbwynt - Gofal Cymdeithasol, Diogelu a Iechyd - Mawrth 2017

Rhoddodd y Cynghorydd Sir G. Burrows, Aelod Cabinet, ddatganiad safle ar Ofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd.

Wrth wneud hynny, diolchodd i Arweinydd y Cyngor am y cyfle dros y chwe blynedd ddiwethaf, gan ychwanegu iddi fod yn fraint.

Ar ran y Grŵp Llafur ac fel Cadeirydd Pwyllgor Dethol Oedolion, diolchodd y Cynghorydd P. Farley i'r Cynghorydd Burrows. Ychwanegodd y croesewid adroddiad 'diwedd tymor' gan bob Aelod o'r Cabinet.

Manteisiodd yr Arweinydd hefyd ar y cyfle i ganmol y Cynghorydd Burrows, gan gydnabod ei waith ar draws Gwent, sef cadeirio Pwyllgor Eiddilwch Gwent. Cydnabuwyd siom adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, ond nodwyd y prosiectau da sy'n mynd rhagddynt, megis Prosiect Rhaglan.

## 8. Adroddiadau'r Prif Swyddog, Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai:

### 8.1. Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Ddiogelu o fewn Cynllun Kerbcraft yng Nghyngor Sir Fynwy

Croesawodd y Cadeirydd y swyddogion Anne Marie Harkin a Ron Price o Swyddfa Archwilio Cymru, oedd yn bresennol i gyflwyno Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y trefniadau diogelu o fewn cynllun Kerbcraft yng Nghyngor Sir Fynwy.

Mynegodd yr Aelod Cabinet siom gyda'r canfyddiadau yn ymwneud â chynllun Kerbcraft. Dymunai roi sicrwydd fod yr awdurdod yn gwneud ei orau glas i sicrhau amgylchedd mor ddiogel ag sydd modd ym mhopeth a wnaiff. Dywedodd y gwnaed llawer iawn o waith yng nghyswllt diogelu hyd yma a bod yn rhaid i ni gynyddu ein hymdrechion ymhellach. Er ei bod yn iawn i ni graffu ar yr adroddiad, ychwanegwyd na ddylem golli'r cyd-destun yn llwyr.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, siaradodd Prif Swyddog , Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a dywedodd ei fod yn brofiad difrifol derbyn adroddiad yn dweud ein bod yn darparu gwasanaeth sy'n rhoi plant mewn risg oherwydd gwendidau parhaus mewn trefniadau diogelu. Ychwanegodd fod angen i ni weithredu gyda phenderfyniad, yn ystyrlon ac yn dryloyw i drin diffygion. Roedd yn bwysig cofio fod Kerbcraft yn wasanaeth pwysig a daeth i'r casgliad ei bod yn hollbwysig ein bod yn dysgu'r gwersi ehangach o'r adroddiad.

Nodwyd y pwyntiau dilynol yn ystod trafodaeth:

Diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion am fod yn bresennol, gan nodi pwysigrwydd y negeseuon difrifol ac yn cydnabod y diffygion a ddynodwyd. Ychwanegodd, pe byddai'n ddigon ffodus i gael ei ddychwelyd fel Arweinydd ar ôl Mai 2017, fod gwaith pellach y gallwn ei wneud i gryfhau ein gwaith diogelu.

Ychwanegodd Aelod y byddai'r Grŵp Llafur yn sicrhau y byddai'r mater hwn ar yr agenda a phwysleisiodd y dylid hysbysu'r Cyngor am faterion mor bwysig.

Holodd Cadeirydd y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc pam na fu'r adroddiad hwn drwy'r broses craffu. Nodwyd fod y Swyddog Craffu ymysg y rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw, ond nid oedd esboniad pellach. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol fod natur yr adroddiad yn golygu fod angen ei ystyried gan y Cyngor llawn a bod yr amserlen yn golygu mai hwn fyddai'r unig gyfle ar gyfer craffu.

Gofynnodd y Cynghorydd Howard am eglurhad am y grant ar gyfer Kerbcraft gan Lywodraeth Cymru a pham na chafodd hyn ei fanylu.

Dywedodd y Cynghorydd Howard na fyddai diogelwch plant fod yn fater ôl-weithredol, a gan fod y Cyngor yn ystyried rhannu gofod mewn rhai trefi yn Sir Fynwy, gofynnodd i'r Aelod Cabinet pa

sicrwydd y gallai ei roi parthed y cynlluniau rhannu gofod. Mewn ymateb diolchodd y Cynghorydd Burrows i'r Aelod am y cwestiwn a chyfeiriodd at y Pennaeth Gweithrediadau. Clywsom fod cynlluniau rhannu gofod yn cyfeirio at sut yr ydym yn trin traffig o fewn ein priffyrdd cyhoeddus, bod asesiadau risg yn gynhenid o fewn y cynlluniau ac y rhoddir ystyriaeth i'r materion hyn.

Mynegodd nifer o Aelodau bryder a gofyn am sicrwydd nad oes unrhyw feysydd arall o'n darpariaeth lle adroddir pryderon. Roedd o gonsyrn neilltuol y dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru eu bod wedi cael gwybodaeth rannol a chamarweiniol, a gofynnwyd am wybodaeth bellach parthed camau gweithredu a gymerwyd gyda'r staff oedd yn gysylltiedig.

Nodwyd fod cynllun Kerbcraft yn wasanaeth pwysig ac y gallem, drwy ddiffyg proses a llywodraethiant, fod wedi rhoi'r bobl sy'n darparu'r gwasanaeth yn ogystal â'n plant mewn risg. Nododd hefyd na fu unrhyw adolygiad neu adroddiad ffurfiol.

Gan y caiff Kerbcraft ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac y caiff rhaglenni tebyg eu rhedeg mewn cynghorau eraill, awgrymwyd y dylai'r adroddiad gael ei rannu gan amlygu'r problemau o fewn ein gweithdrefnau i alluogi awdurdodau eraill i ddysgu o'n camgymeriadau.

Anerchodd Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol ac Iechyd y Cyngor mewn ymateb i bryderon Aelodau. Dywedodd ei bod yn bwysig, wrth ystyried difrifoldeb yr adroddiad, i nodi nad yw hyn yn sefyllfa o gam-drin plant ond y gallai plant wedi eu rhoi mewn risg 'posibl' oherwydd diogelu annigonol yn ymwneud â recriwtio gwirfoddolwyr. Yng nghyswllt y materion personél, cychwynnwyd ymchwiliad rhagarweiniol mewnol. Byddir yn symud ymlaen gyda gweithredu, gan sicrhau y caiff y camau eu craffu'n iawn.

Wrth grynhoi, rhannodd yr Aelod Cabinet bryder clywed am yr adroddiad mor hwyr yn y dydd neu hyd yn oed fodolaeth y gweithgaredd neilltuol hwn, a chytunodd gyda phopeth a ddywedwyd yn y siambr heddiw.

Roedd Ms. Harkin o Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiolchgar am y sicrwydd y gwneir gwelliannau a chroesawodd yr ymateb i'r argymhellion.

Mewn pleidlais, penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhellion:

- Bod y Cyngor yn derbyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gynllun Kerbcraft.
- Bod y Cyngor yn derbyn yr argymhellion statudol yn yr adroddiad, yn ystyried y sefyllfa bresennol o gymharu â'r argymhellion ac yn cytuno ar y camau gweithredu i fynd i'r afael â nhw.

### 8.2. Adroddiad Diogelu Cynnydd

Rhoddwyd adroddiad i'r Cyngor i roi adolygiad i'r Aelodau o gynnydd diogelu.

Yn ystod trafodaethau nodwyd:

Roedd pryder am y datganiad ar ostwng yr hyfforddiant a ddarperir gan Fwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru (SEWSCB), gan felly ychwanegu pwysau ar y Cyngor i ddarparu hyfforddiant. Gofynnwyd am sicrwydd bod hyn yn ymrwymiad yn hytrach na phwysau. Esboniodd y Prif Swyddog fod SEWSCB wedi adolygu'r ffordd y mae'n darparu hyfforddiant a'i bolisi hyfforddiant. Teimlent fod hyn wedi rhoi pwysau yn ôl ar yr awdurdod i ddarparu mwy o hyfforddiant o fewn y Cyngor. Mae'n rhaid i ni sicrhau fod pawb sydd angen hyfforddiant yn cael hynny, a'n bod yn cael y mewnbwn cywir o hyfforddiant rhanbarthol yn ogystal â'r hyfforddiant a gyflwynwn ein hunain fel Cyngor.

Mewn pleidlais penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhellion:

• Bod y Cyngor yn nodi'r cynnydd ac yn herio hunanasesiad Grŵp Cydlynu Diogelu yr Awdurdod Cyfan (WASCG)
• Bod y Cyngor yn cefnogi'r bwriad i ganolbwyntio'r rhaglen ddiogelu a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2016 ar bum maes blaenoriaeth allweddol.

**9. <u>Adroddiadau'r Prif Swyddog, Menter:</u>**

**9.1. Dyddiadur Cyfarfodydd 2017/18**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor i gymeradwyo dyddiadur cyfarfodydd ar gyfer 2017/18.

Dywedodd yr Arweinydd y gall y Cyngor newydd ddymuno adolygu rhai dyddiadau, ac amserau cyfarfodydd y Cyngor, ac y dylid ychwanegu hyn fel eitem agenda ar gyfer y cyfarfod ffurfiol cyntaf.

Cyfeiriwyd at gynnwys cyfarfodydd grŵp ac ystyriwyd na ddylai'r rhain gael eu cynnwys.

Mewn pleidlais penderfynodd y Cyngor i gytuno ar yr argymhelliad:
• Cymeradwyo dyddiadur cyfarfodydd 2017/18.

**9.2. Dyfodol Sir Fynwy: Model cyflenwi newydd arfaethedig ar gyfer Twristiaeth, Hamdden, Diwylliant a Gwasanaethau Ieuenctid**

Manteisiodd y Cynghorydd Sir Greenland ar y cyfle i roi diweddariad ar drethi busnes. Dywedodd ei fod wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet a byddai Aelodau yn gwybod fod Prif Weinidog Cymru wedi cyhoeddi y cyflwynir cynllun cymorth £10m ar gyfer Cymru. Cyrhaeddodd manylion y cynllun yr wythnos ddiwethaf ac o gofio y caiff biliau trethi busnes eu dosbarthu yr wythnos nesaf, nid oedd hyn yn rhoi digon o amser i roi ystyriaeth i'r cynllun. Felly bydd busnesau yn Sir Fynwy yn derbyn biliau yn dangos y cynnydd llawn, a gobeithir y caiff ad-daliadau dyledus dan y cynllun eu gwneud ym mis Mehefin. Nodwyd y byddai llawer o fusnesau mewn risg mawr ac mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi ysgrifennu eto at Ysgrifennydd y Cabinet yn gofyn i fusnesau fedru talu'r swm presennol a dim mwy tra byddant yn mynd drwy broses apêl. Ychwanegodd hefyd yn ei lythyr nad oedd wedi gweld unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r achos fod trethi busnes wedi codi gan 7% yn Sir Fynwy rhwng 2008-2015 tra'u bod wedi gostwng gan 3% yng Nghaerdydd.

Ychwanegodd Aelod y Cabinet fod cydweithwyr Ceidwadol wedi cytuno os oes gweinyddiaeth fwyafrif gan y Ceidwadwyr yn dilyn yr etholiad, y byddant yn cyflwyno cynlluniau i helpu busnesau drwy'r gronfa cymorth caledi eithriadol a allai fod ar gael.

Gwnaeth y Cynghorwyr Sir J. Higginson a R. Harris ddatganiadau o fuddiant personol nad oedd yn rhagfarnu yn unol â'r Cod Ymddygiad fel aelodau a benodwyd gan y Cyngor o Dribiwnlys Prisiant Dwyrain Cymru.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir S. Jones ddatganiad o fuddiant personol nad oedd yn rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau fel aelod o'r Fforwm Trethdalwyr a Chyfarwyddwr Consortiwm Manwerthu Cymru.

Dywedwyd yng nghyswllt stôr Morrisons yn y Fenni, y gobeithiant fod ar y safle ym mis Ebrill 2017 gyda dyddiad agor ym mis Tachwedd.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor i roi achos busnes amlinellol a phapurau cysylltiedig i Aelodau sy'n ystyried ystod o wahanol fodelau darpariaeth ar gyfer Gwasanaethau Twristiaeth,

Hamdden, Diwylliant ac Ieuenctid yn dilyn gwerthusiad annibynnol o opsiynau gan Anthony Collins Cyfreithwyr a cheisio cytundeb ar y cam nesaf.

Nodwyd y pwyntiau dilynol yn ystod trafodaeth:

Gofynnwyd am sicrwydd am ddyfodol y canolfannau awyr agored dan y model darparu arall. Esboniodd y Pennaeth Twristiaeth, Hamdden a Diwylliant y bartneriaeth gymhleth gyda chynghorau eraill. Er bod rhai cynghorau yn cilio o'r bartneriaeth, mae angen i ni gynnal partneriaeth gyda'r partneriaid sy'n dal i fod. Mae arwydd clir o i ba gyfeiriad y mae gwasanaeth yn mynd, ond bwriedir cynnal trafodaethau gyda phartneriaid dros y misoedd nesaf. O fis Ebrill, Blaenau Gwent fydd yr unig bartner llawn yn nhermau cyfraniadau ariannol ond maent yn edrych ar eu cynnig addysgol awyr agored eu hunain. Mae Torfaen wedi tynnu £60k dros y 2 flynedd ddiwethaf a byddant yn tynnu £60k arall y flwyddyn nesaf. Mae Casnewydd yn dal i fod yn berchen Talybont, Sir Fynwy yn berchen Gilwern a Pharc Hilston.

Clywodd aelodau nad oedd unrhyw fygythiad i The Zone yng Nghil-y-coed. Ychwanegodd y Cynghorydd Hacket Pain nad oedd unrhyw reswm dros ystyried y byddai'r cysylltiad rhwng addysg a'r gwasanaeth ieuenctid yn cael ei dorri.

Diolchodd y Cynghorydd A. Webb i'r swyddog am yr adroddiad a gofynnodd am sicrwydd na effeithid ar yr Hen Orsaf, Tyndyrn. Clywsom mai'r bwriad yw datblygu'r Hen Orsaf ymhellach a gwella'r cynnig, yn cynnwys y parcio ac agweddau eraill sy'n cyfyngu.

Mynegwyd pryder am TUPE staff, gan y byddai hyn yn cynyddu cost gweinyddiaeth. Esboniodd Pennaeth Twristiaeth, Hamdden a Diwylliant y byddai hyn yn rhan o'r cynllun busnes llawn a gyflwynir ym mis Medi 2017.

Mewn ymateb i gwestiwn am ffioedd ymgynghori clywsom y dynodwyd y ffioedd yn y cynllun busnes amlinellol fel buddsoddiad.

Rhoddwyd sicrwydd i aelodau bod staff yn cael eu diweddaru a hyd yma, bu nifer dda'n bresennol yn y digwyddiadau ymgynghori.

Dywedodd y Cynghorydd J Prosser y bu'r adroddiad drwy graffu, cyd-graffu a digwyddiadau seminar a llongyfarchodd swyddogion am fod yn arloesol a blaengar wrth gynnal gwasanaethau.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Fenter i bryder parthed Pwll Trefynwy, gan esbonio y byddai'r pwll yn 25 metr o hyd, 5 lôn, a gyda rheoliadau. Byddai'r neuadd chwaraeon yn symud i'r ysgol, ond byddai ar gael i'r ysgol pan nad oedd yr ysgol yn ei defnyddio. Mae cynigion i ailwampio'r ganolfan hamdden yn Nhrefynwy i roi cyfleusterau mwy diweddar, gan gynyddu defnydd ac incwm.

Mewn pleidlais, penderfynodd y Cyngor i gytuno ar yr argymhellion:

• Bod y Cyngor yn ailosod yr argymhellion fel y'u cytunwyd ym mis Hydref 2016 i ohirio'r achos busnes lawn i alluogi ystyried achos busnes amlinellol ym mis Mawrth 2017.
• Bod y Cyngor yn cytuno datblygu opsiwn 2, trawsnewid yn fewnol ac opsiwn 3, model darpariaeth newydd am y rhesymau a ddynodwyd yn y cynllun busnes amlinellol a pheidio symud ymlaen ag opsiwn 1, aros yr un fath ac opsiwn 4, cyrchu allanol.
• Bod y Cyngor yn cytuno datblygu'r cynllun busnes amlinellol i gynhyrchu'r achos busnes llawn terfynol i'w ystyried cyn gynted ag sy'n bosibl yn wleidyddol.

### 9.3. Llywodraethiant Cymunedol yn Sir Fynwy

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor i ofyn am gytundeb y Cyngor i dreialu set newydd o drefniadau ar gyfer llywodraethiant cymunedol yn Sir Fynwy.

Yn dilyn trafodaeth eang roedd cytundeb ymhlith aelodau'r gweithgor trawsbleidiol mai Opsiwn 2 oedd yr opsiwn a ffafrient ond gyda'r gwahoddiad ychwanegol i un cynrychiolydd o bob un o'r cynghorau cymuned neu dref yn yr ardal honno:

- Opsiwn 2) Cadw Pwyllgorau Ardal fel yr unig strwythur gyda chynnydd yn yr aelodau cymunedol a gyfetholir.

Cefnogodd y Cynghorydd D. Edwards yr argymhelliad i dreialu'r cynllun yn ardal Bryn y Cwm a soniodd am agweddau o raglen gwaith y pwyllgor ardal cyfredol.

Mewn pleidlais, penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhellion:

- Argymhellir bod: (i) yr adolygiad cyfredol o lywodraethiant cymunedol a lle cyfan yn cael ei gwblhau cyn gynted ag sy'n bosibl i alluogi'r Cyngor newydd i ddod i gytundeb am siâp a strwythur ymgysylltu cymunedol.
- Bod y strwythur llywodraethiant cymunedol a gynlluniwyd fel rhan o'r gweithgor aelodau yn cael ei dreialu yn ardal Bryn y Cwm.

### 9.4. Asesiadau llesiant ar gyfer y sir a gosod Amcan ar gyfer y Cyngor:

Cyflwynwyd yr adroddiadau dilynol i'r Cyngor i geisio cymeradwyaeth ar gyfer cyfres o asesiadau a chynlluniau rhyng-gysylltiedig a gynhyrchwyd mewn ymateb i ddeddfwriaeth newydd.

Y pedair dogfen yw:
i) Yr Asesiad Llesiant a gynhyrchwyd ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
ii) Asesiad Anghenion Poblogaeth ar gyfer Sir Fynwy;
iii) Amcanion Llesiant a Datganiad Llesiant arfaethedig y Cyngor; a
iv) Blaengynllun Cydnerthedd Bioamrywiaeth ac Ecosystem.

Nodwyd y pwyntiau dilynol yn ystod trafodaeth.

Gofynnwyd am sicrwydd bod cysylltiadau gyda swyddogion perthnasol o'r Grŵp Trafnidiaeth Strategol yn eu lle. Atebodd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad y cyfeirir at Grŵp Rheilffordd Magwyr. Mae trafnidiaeth yn fater a amlygwyd fel her ac fel cyfle. Mae swyddogion wedi dechrau edrych ar drafnidiaeth a'r bwriad yw dod â swyddogion a phobl ynghyd yn y cymunedau i sefydlu cynlluniau cadarn.

Mewn pleidlais, penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhellion:

- Cymeradwyo'r Asesiad Llesiant cyn ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 29 Mawrth.
- Cymeradwyo'r Asesiad Anghenion Poblogaeth.
- Cymeradwyo cyhoeddi amcanion a datganiad llesiant y Cyngor, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau a ofynnir gan y Cyngor heddiw, a gyda dealltwriaeth y bydd y Cyngor yn ailystyried yr amcanion yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017.
- Cymeradwyo'r Blaengynllun Cydnerthedd Bioamrywiaeth ac Ecosystem.

## 10. Adroddiad y Prif Swyddog, Adnoddau

### 10.1. Datganiad ar Bolisi Tâl

Gadawodd Prif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth Siambr y Cyngor ar gyfer y drafodaeth.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor i gymeradwyo cyhoeddi polisi cyflogau Cyngor Sir Fynwy, gan gydymffurfio gyda'r Ddeddf Lleoliaeth.

Nodwyd y pwyntiau dilynol yn ystod y drafodaeth:

Mewn ymateb i gwestiwn am fand cyfartalog uwch swyddogion, p'un ai ar y top neu'r gwaelod, dywedodd Rheolwr Dros Dro Adnoddau Dynol y byddai hyn yn dibynnu ar y raddfa a gytunwyd adeg penodi a hyd y gwasanaeth. Gellid rhoi mwy o wybodaeth.

Teimlid y byddid yn cynnwys y cynnydd cynyddrannol drwy'r cyllidebau staffio arferol.

Dywedodd y Cynghorydd Hayward fod y gymhareb 4:1 rhwng y swyddog ar y cyflog isaf a'r prif swyddog yn awgrymu mai £22,000 fyddai'r cyflog isaf a chredai fod hyn yn anghywir. Byddai Rheolwr Dros Dro Adnoddau Dynol yn rhoi mwy o fanylion am luosolion.

Mewn pleidlais, penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhellion:

- Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Polisi Cyflogau ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017.

- Bod y Cyngor yn cymeradwyo talu'r dyfarniad cyflogau a negodwyd ac a gytunwyd yn genedlaethol gan y Cydgyngor Cenedlaethol (JNC) ar gyfer Prif Swyddogion Gweithredol Awdurdodau Lleol. Caiff amodau a thelerau Prif Swyddogion Gweithredol eu gosod gan y JNC ar gyfer Prif Swyddogion Gweithredol Awdurdodau Lleol. Roedd y cytundeb Cyflog a wnaed yn 2016 ar gyfer Prif Swyddogion Gweithredol ar gyfer cynnydd cyflog o 1% yn weithredol o 1 Ebrill 2016 a chynnydd cyflog 1%, yn weithredol 1 Ebrill 2017.

- Bod y Cyngor yn cymeradwyo talu'r dyfarniad cyflogau a negodwyd ac a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer y staff hynny sy'n dod dan y JNC ar gyfer Prif Swyddogion. Caiff telerau ac amodau cyflogaeth a chyflogau Prif Swyddogion eu gosod gan y JNC ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol. Y cytundeb cyflogau a wnaed yn 2016 ar gyfer Prif Swyddogion oedd cynnydd cyflog o 1% yn weithredol o 1 Ebrill 2016 a chynnydd o 1% yn weithredol o 1 Ebrill 2017. Mae'r Cyngor yn cyflogi Prif Swyddogion dan delerau ac amodau JNC a gaiff eu cynnwys yn eu contractau cyflogaeth. Mae'r JNC ar gyfer Prif Swyddogion yn negodi ar gynnydd blynyddol cost byw cenedlaethol (DU) ar gyfer y grŵp hwn, a chaiff unrhyw ddyfarniad ei benderfynu ar y sail hon. Mae gan Brif Swyddogion a gyflogir dan delerau ac amodau'r JNC hawl contractiol i unrhyw gynnydd cyflog cenedlaethol a benderfynir gan y JNC a bydd y Cyngor hwn felly'n talu'r rhain fel a phan y penderfynir yn unol â gofynion contract.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held**
**at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Llun, 20fed Mawrth, 2017 at 2.00 pm**

**The meeting ended at 5.20 pm**